**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1073
Ein cyf/Our ref DET/03148/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebiadau

25 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Tachwedd ynghylch Deiseb P-05-1073 am amgueddfa genedlaethol ar gyfraniad Cymru at wladychiaeth.

Mae gwladychiaeth heb amheuaeth wedi dylanwadu ar ein datblygiad fel cenedl ac mae wedi'i gynnwys yn ddwfn o fewn sawl agwedd ar hanes Cymru. Mae'n rhaid edrych ar wladychiaeth a hiliaeth yn iawn fel rhan annatod o hanes sydd eisoes yn cael ei gyflwyno gan y rhwydwaith o amgueddfeydd, yn lleol a chenedlaethol, ledled Cymru. Rydym yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar sicrhau bod ganddynt y cymorth y maent ei angen i oroesi. Y tu hwnt i hynny, byddwn yn gweithio gyda hwy i sicrhau bod ganddynt y capasiti a'r gallu i adlewyrchu ein treftadaeth yn gywir. Mae hyn yn galw am ymdrech ar y cyd gan bob un o'n cyrff treftadaeth ddiwylliannol ac ni ellir cyflawni hyn drwy un sefydliad mewn lleoliad canolog.

Rwy'n croesawu'r datganiad a wnaethpwyd eisoes gan Amgueddfa Cymru - National Museum Wales sy'n ymrwymo i amrywio ei chasgliadau ac edrych ar y materion sy'n gysylltiedig â dadwladychu, anghydraddoldeb a hiliaeth.

Diolch am holi fy marn ar y materion hyn.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.